LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBOL IFANC

LLWYDDO'N LLEOL 2050

ENW: Mared Llywelyn

LLEOLIAD: Pen Llŷn, Gwynedd

Y SWYDD: Plas Carmel – Trefnu digwyddiadau

LLUN - ECOAMGUEDDFA LLŶN

PAM ES TI AT LLWYDDO'N LLEOL?

Roeddwn i eisiau cael profiad a dysgu ymarfer da drwy elfen Gyrfaol Llwyddo'n Lleol, felly es i amdani er mwyn datblygu fy sgiliau proffesiynol. Rwy'n gweithio yn Plas Carmel ym Mhen Llŷn, ac mae llawer o bethau cyffrous yn mynd ymlaen yno ar hyn o bryd, fel adnewyddu'r capel a'r tŷ capel. Roeddwn i'n awyddus felly i allu defnyddio fy sgiliau newydd i helpu'r datblygiadau yma.

BETH FUES TI'N EI WNEUD?

Fy mhrif rôl i ydy trefnu digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol a hanesyddol i bobl leol ac ymwelwyr. Ond rydw i hefyd yn gwneud unrhyw beth sydd ei angen, fel ceisio am grantiau, gwaith gweinyddu neu lanhau. Gyda chefnogaeth Llwyddo'n Lleol, ges i fynd ar daith i Ynys Hir (Skye) er mwyn dysgu mwy am sut oedden nhw'n ymateb i heriau cymunedol tebyg iawn i be rydyn ni'n wynebu yma ym Mhen Llŷn.

Yn ystod y daith, ges i weld sut oeddent yn delio gyda gor-dwristiaeth a phroblemau tai i bobl leol, ac roedden nhw wedi adeiladu tai cymdeithasol ar gyfer siaradwyr o Aeleg yr Alban, a oedd yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith a'i defnydd yn yr ysgol leol.

PA EFFAITH MAE HYN WEDI'I GAEL?

Do – mae wedi dangos nid yn unig be ydy potensial Plas Carmel ond hefyd be sy'n bosib i Ben Llŷn, wrth i ni edrych ar greu adnoddau, hyrwyddo a threfnu digwyddiadau lleol. Rydw i hefyd wedi cael syniadau am nwyddau newydd i werthu, gan ddefnyddio cynhyrchwyr lleol i'w creu yn yr ardal. Mae cefnogaeth Llwyddo'n Lleol wedi bod yn werthfawr iawn i ni.

Y camau nesaf i ni ydi rhoi'r ysbrydoliaeth cawsom yn Ynys Hir ar waith, wrth i ni ddenu tenantiaid newydd i'r tŷ capel a'r caffi. Bydd gennym raglen weithgareddau amrywiol i bobl yr ardal ac ymwelwyr, gan gynnig pethau newydd yn 2025.

ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government